Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Georgie Porgie`s Tir Morfa**

**Ysgol Tir Morfa**
**Marine Drive**
**Sandfields**
**Port Talbot**
**SA12 7NN**

**This report is also available in English**

**Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/01/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Georgie Porgie`s Tir Morfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd i Blant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cofrestredig | Gemma Williams<br>Caralyn George |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 19.05.2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae gan y plant lais da. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus, wedi ymlacio ac yn hyderus. Mae'r plant yn dangos rhyngweithiadau cadarnhaol. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r staff gofal yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol yn llwyr ac yn eu gweithredu yn gyson. Maent yn deall y polisi ymddygiad yn llwyr ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Mae gan y staff gofal wybodaeth a dealltwriaeth dda o anghenion datblygiadol y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r adnoddau a'r teganau yn addas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus. Maent yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn. Mae'r cynllun hunanwerthuso a'r cynllun gweithredol yn bwrpasol ac wedi'u gweithredu. Mae'r partneriaethau yn dda.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais da ac maent yn gwneud dewisiadau personol. Mae bron pob un o'r plant yn penderfynu beth maent am chwarae ag ef o'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r plant iau yn dewis o ystod dda o chwarae ac adnoddau sy'n addas i'w cam datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo eu datblygiad cyflawn, gan eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae synhwyraidd gyda balŵns ac mae eraill yn datblygu sgiliau echddygol bras ar y camau. Mae'r plant yn teimlo y gwrandewir arnynt. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, mae'r plant yn dewis eistedd gyda ffrindiau, ac mae'r rhai sydd am gael mwy o fwyd yn cael mwy o basta a llaeth ar gais.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus, wedi ymlacio ac yn hyderus. Mae ganddynt gydberthnasau agos gyda'r staff gofal. Er enghraifft, yn ystod chwarae rhydd, mae'r plant yn mynd at y staff yn rhwydd ac yn gofyn , *"Ga i wneud ychydig o baentio nawr?"* Mae'r plant iau yn ffurfio cysylltiadau emosiynol cadarnhaol â'r staff. Roeddent yn ymestyn am gofleidiadau wrth iddynt ddweud ffarwél amser mynd adref. Mae'r plant hŷn yn hapus yn cyrraedd o'r ysgol ac maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae bron pob un o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth gan wenu a gweiddi hwrê wrth i'r staff ddweud wrthynt eu bod wedi cydbwyso yn dda ar un o'r byrddau cydbwyso.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos rhyngweithiadau cadarnhaol. Maent yn rhyngweithio'n dda. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae yn dda gyda'i gilydd, gan annog ei gilydd i ddefnyddio eu troed ar y si-so i wneud iddo siglo. Mae ymddygiad y plant yn dda yn gyson. Maent yn rhannu ceir a threisiglau yn hapus yn ystod chwarae yn yr awyr agored ac yn gwrando pan ofynnir iddynt dacluso.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir. Maent yn canu caneuon yn frwdfrydig amser mynd adref, er enghraifft, gwnaethant ganu 'Hwyl fawr ffrindiau' yn Gymraeg gan ddefnyddio symudiadau dwylo. Mae'r plant yn llawn cyffro yn ystod chwarae ac mae ganddynt gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant yn dewis gweithgareddau â ffocws ac mae eraill yn datblygu eu sgiliau trwy chwarae rôl dychmygol. Maent yn defnyddio offer cegin ac adnoddau naturiol yn y gegin fwd yn annibynnol. Mae'r plant yn mwynhau adeiladu tyrau o flociau ac yn gwrando ar straeon yn cael eu darllen iddynt am gyfnod hir.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos sgiliau annibyniaeth da. Er enghraifft, amser cinio, maent yn bwyta gyda ffyrc ac yn gofyn yn hyderus am y bwyd a ffafrir ganddynt. Mae'r plant hŷn yn arllwys llaeth a dŵr iddyn nhw eu hunain, tra bod rhai yn gofyn am gymorth gan y staff gofal. Mae'r plant iau yn dod yn fwy cymdeithasol ac annibynnol. Maent yn archwilio eu chwarae yn rhydd dan do ac yn yr awyr agored yn hyderus. Mae'r plant sy'n cyrraedd y feithrinfa o ysgol gyfagos yn rhoi eu cotiau a'u bagiau ar eu pegiau ac yn golchi eu dwylo yn reddfol yn barod i gael cinio.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff gofal yn deall polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol yn llwyr ac yn eu gweithredu yn gyson. Maent yn dilyn a gweithredu arferion glanhau cadarn ac yn asesu risg yr ardaloedd sy'n hygyrch i'r plant bob dydd. Mae'r staff gofal yn cadw pob ardal yn lân ac yn diheintio pob ardal cyn ac ar ôl prydau bwyd. Mae’r staff gofal sy'n paratoi prydau o fwyd i'r plant yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol ac mae tystysgrifau hylendid bwyd yn gyfredol. Mae'r staff gofal yn deall a gweithredu canllawiau arferion gorau bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant Llywodraeth Cymru gan ddarparu bwydlen sy'n gytbwys o ran maeth i'r plant. Maent yn sicrhau bod alergeddau, anoddefiadau a hoffterau'r plant yn cael eu nodi, eu harddangos ac y gweithredir arnynt. Mae cofnodion perthnasol o ddamweiniau, anafiadau sy'n bodoli eisoes, digwyddiadau a meddyginiaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau mewn perthynas â senarios diogelu ac amddiffyn plant posibl. Mae'r staff gofal yn goruchwylio'r plant yn gadarn drwy’r amser.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llwyr ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Maent yn canmol y plant am arllwys eu llaeth eu hunain, ac am rannu a chymryd eu tro ar y sleid a'r beiciau yn yr awyr agored. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo strategaethau ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, pan oedd y plant yn anghytuno am jig-so, gwnaeth y staff gofal drafod y jig-so yn ddigynnwrf a’u canmol am weithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r staff gofal yn dangos rhyngweithiadau gofalgar a magwrol gyda'r plant. Er enghraifft, maent yn rhoi cofleidiadau i'r plant sydd am gael cofleidiadau yn ddigymell. Mae'r staff gofal yn ymatebol yn gyson. Maent yn ymateb i anghenion y plant yn brydlon ac yn effeithiol yn ystod chwarae, amseroedd prydau bwyd ac wrth ymateb i'w hanghenion personol.

Mae gan y staff gofal wybodaeth a dealltwriaeth dda o anghenion datblygiadol y plant. Maent yn gwneud arsylwadau ac asesiadau o waith a chynnydd y plant. Mae'r staff gofal yn dilyn diddordebau'r plant ac yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau blaenorol i gynhyrchu nodau'r camau nesaf i'r plant. Maent yn defnyddio offeryn asesu lleferydd ac iaith i ddatblygu datblygiad iaith y plant ymhellach. Mae'r staff gofal yn datblygu datblygiad ieithyddol a mathemategol trwy gynllunio themâu, caneuon a straeon yn ystod amser cylch. Maent yn canu caneuon Cymraeg a Saesneg ac yn annog y plant i gyfrif yn Gymraeg. Mae'r staff gofal yn annog adnabod lliwiau, enwau anifeiliaid, cyfrif ac ymadroddion yn ystod amser cylch ac yn holi'r plant am eu gwybodaeth yn ddwyieithog.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn sicr, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu trefniadau glanhau cyson yn effeithiol sy'n adlewyrchu arferion rheoli heintiau da. Maent yn diweddaru asesiadau risg cadarn yn rheolaidd ac mae cofnodion cynnal a chadw yn gyfredol ac wedi'u cwblhau. Mae'r ddau fynediad i'r ardaloedd meithrinfa wedi'u cloi'n ddiogel ac mae system ddiogelwch ar waith i'r staff gofal gael mynediad i'r ardaloedd. Mae cofnodion o'r bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn nwy ardal y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu a chofnodi ymarferion tân rheolaidd, fodd bynnag nid yw'r rhain yn gyson a phrin yw'r manylion am yr ymarferion tân.

Mae'r adeilad yn groesawgar ac mae arddangosfeydd o waith y plant yn cael eu dangos mewn rhai ardaloedd. Mae'r holl doiledau a chyfleusterau newid yn hygyrch, yn lân ac yn darparu ar gyfer oedran y plant, yn ogystal â'u preifatrwydd a'u hurddas. Mae'r dodrefn a'r offer yn addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Mae lle da i'r plant archwilio a symud o gwmpas dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r adnoddau a'r teganau yn addas. Maent yn darparu adnoddau digonol oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal, sy'n hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol a sgiliau iaith, mathemategol, creadigol a chorfforol. Mae gan y plant fynediad at byslau, adnoddau creadigol, llyfrau, chwarae adeiladol, adnoddau chwarae rôl a chyfleoedd byd bach dan do. Mae mannau awyr agored da gyda chanopi mewn un ardal. Mae cyfleoedd dysgu yn cynnwys cegin fwd, chwarae tywod, beiciau, ceir, peli a chyfleoedd adeiladu a garddio. Mae geirfa Cymraeg a Saesneg yn cael ei arddangos a chynigir llyfrau dwyieithog yn yr ardaloedd darllen. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod themâu ac adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau gwahanol ac amrywiaeth.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus. Maent yn adolygu a rhannu eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u datganiad o ddiben yn gyson, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal ac yn sicrhau eu bod yn cael eu lleoli mewn modd trefnus er mwyn i gymarebau staffio ac anghenion y plant gael eu diwallu. Mae'r holl gofnodion rheoleiddiol ac yswiriannau ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn proses recriwtio amserol a chadarn, wedi'i dilyn gan gyfnod sefydlu cadarn. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd ac yn nodi anghenion hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod bron pob aelod o'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol cyfredol. Maent yn ymwybodol o ddyletswydd atal mewn perthynas â radicaleiddio a gweithgarwch terfysgaeth. Fodd bynnag, nid yw'r holl staff gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant dyletswydd atal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a chafodd hysbysiad o newidiadau staffio diweddar ei gwblhau yn ystod yr arolygiad.

Mae'r cynllun hunanwerthuso a'r cynllun gweithredol yn bwrpasol ac wedi'u gweithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ystyried barn y plant, y rhieni, y staff gofal ac asiantaethau allanol eraill er mwyn creu nodau ar gyfer y lleoliad yn y dyfodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn ac yn ystyried unrhyw faterion sy'n codi yn briodol, ac yn ymateb iddynt yn fanwl gydag urddas mewn modd proffesiynol.

Mae'r partneriaethau yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni mewn perthynas â newidiadau i'r gwasanaeth, gweithgareddau ac ariannu gwaith codi arian. Gwneir hyn drwy gylchlythyrau a negeseuon trwy dudalen we ar y cyfryngau cymdeithasol. Maent yn rhoi adborth i'r rhieni ar lafar ac yn canolbwyntio ar anghenion, hwyliau a hoffterau'r plant ac mae rhai rhieni yn dewis cael copi ar bapur o'r wybodaeth. Mae'r rhieni'n fodlon iawn ar ofal dyddiol y lleoliad a datblygiad eu plant. Maent yn teimlo bod anghenion y plant yn cael eu diwallu ac maent yn teimlo bod eu plant yn hapus iawn yn mynd i'r lleoliad.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu manylu ac yn gyson yn nwy ardal y feithrinfa; bod bron pob un o'r plant yn gyfarwydd â'r larymau tân

A2. Sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â dyletswydd atal

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 28 (2) (a) [ii] | Nid oedd gwybodaeth lawn am recriwtio staff ar gael i'r holl staff yn ystod yr arolygiad. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/03/2022